# Parcio'n Ddiogel yn yr Ysgol

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam



## P TAFLEN GYFARWYDDYD AR BARCIO TU ALLAN I YSGOLION

Gall y ffyrdd o gwmpas ysgolion ddod yn fannau peryglus yn enwedig yn ystod y boreau a'r prynhawniau pan fydd traffig yn cynyddu yn y cylch.

Ein prif bryder yw diogelwch y plant, y rhai sy'n cael eu cludo mewn cerbydau a'r rhai'n teithio ar ddeudroed. Gyda hyn mewn golwg darllenwch y wybodaeth yn y daflen hon, a gobeithiwn y bydd yn helpu modurwyr ddeall lle gallant ac na allant barcio, a chreu amgylchedd diogel o gwmpas ysgolion ar gyfer cerddwyr, beicwyr a holl ddefnyddwyr eraill y ffyrdd.

## P Lle gaf i barcio i ollwng / casglu fy mhlentyn?

Dylech barcio eich cerbyd yn unol â'r cyfyngiadau ar barcio sy'n bodoli, bob amser. Wrth gyrraedd yr ysgol mewn cerbyd, cofiwch adael digon o amser i barcio'n ddiogel ac yn gyfreithlon.

## P Parcio ar linellau melyn dwbl a sengl

Cewch stopio am gyfnod byr ar linellau melyn dwbl a sengl fel bod teithwyr yn gallu gadael eich cerbyd neu ddod iddo. Dylech osgoi parcio ar linellau melyn yn uniongyrchol tu allan i'r ysgol rhag i chi rwystro golygfa cerddwyr, yn enwedig plant. Gallwch hefyd rwystro Hebryngwr Croes'r Ysgol rhag gweld.

## P Gaf i barcio ar y Marciau Ysgol Cadwch yn Glir / Marciau Igam-ogam?

Ni ddylid parcio cerbyd ar unrhyw gyfrif ar farciau ysgol cadwch yn glir neu igam-ogam. Er mwyn diogelwch rydym yn gofyn i fodurwyr gadw at hyn bob amser.

## P Gaf i barcio dwbl os byddaf yn aros yn fy ngherbyd?

Mae cerbydau a barciwyd yng nghanol y ffordd yn peri rhwystrau i holl ddefnyddwyr ffyrdd a gallant rwystro golygfa cerddwyr, yn enwedig plant sydd eisiau croesi'r ffordd.

## P Patrolau gan y Swyddogion Gorfodi Sifil

Byddwn yn cael ceisiadau i batrolio yng nghyffiniau ysgolion ar adegau gollwng / casglu, a gallwch gael Rhybudd Talu Cosb os nad ydych wedi parcio'n gywir. Prif nod gorfodi rheolau parcio yw sicrhau bod holl blant yn ddiogel wrth fynd i/o'r ysgol.

## P Marciau ffordd

**Dim aros ar unrhyw adeg**
Nid oes angen arwyddion mwyach ar hyd llinellau melyn dwbl a byddant yn diflannu'n raddol.



**Dim aros ar yr adegau sy'n cael eu dangos ar yr arwydd.** Pan fo llinellau melyn sengl neu ddwbl cewch aros tra bydd teithwyr yn byrddio neu'n gadael y cerbyd a gallwch lwytho ond i chi beidio â bod yn achosi rhwystr.




**CADWCH YN GLIR**




Cadwch y fynedfa'n glir o gerbydau sefydlog, hyd yn oed ar gyfer codi neu ollwng plant

## P Stopio i'r hebryngwr croesi

Mae'r hebryngwyr croesfannau ysgol yno i helpu plant neu oedolion groesi'r ffordd yn ddiogel. Byddwch yn barod i stopio os bydd yn gorchymyn i chi wneud hynny, ac aros nes bydd yr hebryngwr wedi dychwelyd i'r palmant. Os byddwch yn anwybyddu'r arwydd 'Stopio plant' rydych yn torri'r gyfraith ac yn peryglu bywydau.

## P Rhagor o wybodaeth

Os bydd gennych ymholiad ynghylch y wybodaeth hon, neu os ydych eisiau holi ynghylch parcio'n agos at ysgol benodol, cysylltwch â:


**Drwy'r post:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Gwasanaethau Parcio, Adran yr Amgylchedd,
De Ffordd yr Abaty, Stad Ddiwydiannol Wrecsam
Wrecsam, LL13 9PW.

**Dros y ffôn:** (01978) 292042

**Trwy e-bost:** parking@wrexham.gov.uk

**Cyfeiriad ar y We:** www.wrecsam.gov.uk/carparking


Os ydych angen gwybodaeth ar ffurfiau hygyrch gan gynnwys print bras, Braille, casét sain, ar ddisg gyfrifiadur neu mewn ieithoedd heblaw Cymraeg a Saesneg cofiwch sôn wrthym.